






GISDA





# Adroddiad Blynyddol
# 2024 - 2025

GISDA

# NODAU STRATEGOL

## EIN HAMCANION

Rhoi cefnogaeth a chyfleoedd i bobl ifanc digartref a/neu fregus Gwynedd drwy ddarparu:

- Llety a gwasanaethau cefnogol
- Gweithgareddau therapiwtig creadigol, hamdden ac addysgiadol
- Cyngor a gwybodaeth
- Hyfforddiant, cyfleoedd gwirfoddoli a phrofiad gwaith



### Llais

Llais pobl ifanc yn cael ei glywed a chynnwys mewn materion sy'n effeithio nhw

### Llety

Cynyddu ein darpariaeth llety i gwrdd â'r angen cynyddol i bobl ifanc

### Llesiant

Llesiant gwell i bob person ifanc mae GISDA'n cefnogi

### Cefnogaeth

Cynllun cefnogaeth wedi ei deilwra i bob person ifanc mae GISDA'n cefnogi

### Cyfleon

Bob person ifanc mae GISDA'n cefnogi'n uchelgeisiol yn eu dyheadau ar gyfer y dyfodol

# GISDA YN 40 ELENI!

Sefydlwyd GISDA yn 1985 er mwyn darparu llety a chefnogaeth i bobl ifanc digartref yn yr ardal. Rydym yn elusen sydd yn cynnig cefnogaeth a chyfleoedd i bobl ifanc digartref a bregus yng Ngwynedd.



## SIAN TOMOS
## PRIFWEITHREDWR GISDA

Blwyddyn brysur a chyffrous arall.
Bu'n flwyddyn hynod o brysur a chynhyrchiol iawn yn GISDA. Llwyddom i gefnogi dros 700 o bobl ifanc digartref a bregus yn ystod y flwyddyn. Datblygwyd partneriaethau newydd ac ymysg rhai o'n prif brosiectau oedd datblygu 3 safle newydd gan gynnwys Caxton House ym Mhwllheli. Er gwaethaf yr heriau ariannol, llwyddom i ddechrau prosiectau newydd, datblygu hybiau a darparu rhagor o gyfleon i bobl ifanc. Hoffwn ddiolch i'n staff ymroddedig, aelodau bwrdd rheoli profiadol ac i'r arianwyr am ffydd, ymddiriedaeth a chefnogaeth. Wrth i ni gyrraedd carreg filltir sylweddol i'r elusen, sef 40 mlynedd o wasanaeth, rydym yn falch o adrodd ein bod mewn lle cryf a chadarn i barhau i arwain gwasanaethau o safon i bobl ifanc yr ardal sydd ein hangen.



## LLINOS OWEN
## CADEIRYDD GISDA

Mae'n bleser gan y Bwrdd gyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn ar flwyddyn arbennig i GISDA wrth i ni nesáu at ddathlu 40 mlynedd o wasanaethu. Rydym yn hynod falch o waith staff ymroddedig sy'n darparu cefnogaeth hanfodol i bobl ifanc Gwynedd. Mae gwrando ar brofiadau personol y bobl ifanc wedi ein hatgoffa o werth eithriadol yr elusen. Heb GISDA, byddai'r sir yn lle tlotach. Diolch o galon i bawb sy'n cyfrannu – gyda'n gilydd, gallwn barhau i wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

# 2024-25 MEWN RHIFAU

**764**
o bobl ifanc wedi derbyn cefnogaeth

Nifer o sesiynau actif gyda GISDACTIF
**53**

**7**
o wobrau

**2980**
o oriau gwirfoddoli

Nifer o bobl ifanc sydd wedi symud ymlaen o cymorth tai
**167**

**144**
wedi derbyn cefnogaeth argyfwng yn ein hybiau

**468**
wedi derbyn cefnogaeth iechyd meddwl a llesiant

**227**
o bobl wedi derbyn hyfforddiant LHDTC+

**80.56%**
o bobl ifanc wedi gwella eu hiechyd meddwl lles

**335**
unedau Agored Cymru a hyfforddiant ar lein wedi cwblhau

**£69,305**
Mewn grantiau yn uniongyrchol i bobl ifanc

Nifer o nosweithiau Clwb LHDTC+ wedi'u gynnal
**91**

“BYSWN MEWN LLE TYWYLL IAWN HEB GEFNOGAETH GAN GISDA”






**“ HEBLAW AM GISDA BYDDWN I AR Y STRYD HEB UNMAN I ALW’N GARTREF. ”**

**48**
o bobl ifanc wedi derbyn llety trwy ein prosiect Cymorth Tai

**312**
wedi derbyn cefnogaeth

**6**
rhieni ifanc wedi derbyn llety yn ein tai

**100%** Yn nodi eu bod yn gallu cyfathrebu yn hawdd am unrhyw fater

**84**
pobl ifanc wedi derbyn cefnogaeth llety yn y gymuned

**100%** Yn nodi bod GISDA wedi eu helpu i gadw llety

**144**
wedi derbyn cefnogaeth argyfwng yn ein hybiau

**100%** Yn nodi bod y gefnogaeth yn dda neu yn dda iawn

# FY STORI, FY NHAITH - DIOLCH I GISDA

"Daeth GISDA i mewn i fy mywyd yn ystod cyfnod tywyll o unigedd a thrafferth. Trwy eu cymorth, yn enwedig gyda'm taith trawsryweddol, mae fy mywyd wedi gwella ym mhob ffordd bosibl. Rwy'n hapusach, yn fwy cyflawn, yn falch o'm bywyd ac erbyn hyn yn y brifysgol diolch i gymorth fy holl weithwyr allweddol yn GISDA. Ni fyddwn wedi meddwl bron chwe blynedd yn ôl y byddai unrhyw un o hyn yn bosibl, ond diolch i gariad a chefnogaeth GISDA, rwy'n falch o fy mywyd erbyn hyn.

Nid yn unig y cefais fy nghefnogi yn y ffyrdd uchod, cefais hefyd fy nhrin â llawer o amynedd, caredigrwydd ac anogaeth drwy gydol fy amser yn byw yn Hafan, yr hanner ffordd Tre Gof, ac yn y fflat y helpodd GISDA i'w gael i mi. Rhoddodd y gefnogaeth hon yr amser hanfodol oedd ei angen arnaf i ddod yn y person ydwi heddiw. Am hyn ac am gymaint mwy, diolchaf i GISDA o waelod calon. Yn enwedig, roedd byw yn Hafan yn golygu imi gwrdd â llawer o bobl sydd hyd heddiw yn ffrindiau agos i mi, heb rhain byddwn wedi cael trafferthion mwy yn fy mywyd.

Rwy'n ddyledus iawn i GISDA am eu caredigrwydd, a'u cefnogaeth, ac am fy nysgu sgiliau hanfodol y byddwn wedi bod ar goll hebddynt, gan gynnwys cyllidebu, coginio a chymdeithasu. Gyda llawenydd mawr yn fy nghalon, rwy'n astudio yn y brifysgol erbyn hyn — rhywbeth na fyddai wedi bod yn bosibl heb help GISDA."

**"DIOLCH O GALON"**



GISDA
Cyfleon / Opportunities

ACADEMI CYFLEON GISDA




**335**

UNEDAU AGORED CYMRU A HYFFORRDIANT AR LEIN WEDI CWBLHAU

**344**

o bobl ifanc wedi derbyn cymorth

| | |
|---|---|
| 221 | SESIYNAU BYW'N ANNIBYNNOL |
| 651 | HYFFORDDIANT |
| 72 | THEORI GYRRU |

**86%**

o bobl ifanc wedi symud ymlaen i waith, gwirfoddoli neu hyfforddiant

**82%**

o bobl ifanc yn nodi cynnydd yn eu hyder a sgiliau i waith yn dilyn cefnogaeth



# GWIRFODDOLI

**69** o bobl wedi gwirfoddoli yn y flwyddyn ddiwethaf

**2980** o oriau gwirfoddoli



“FE WNAETH GISDA FY HELPU I DDOD O HYD I'M LLAIS, AC ERBYN HYN RWY'N GWIRFODDOLI I HELPU ERAILL DDOD O HYD I'W LLAIS NHW. GYDA'N GILYDD, DYDYN NI DDIM OND YN NEWID BYWYDAU; RYDYN NI'N SIAPIO DYFODOL AC YN ADEILADU CYMUNED LLE MAE POB LLAIS YN CYFRI.”

# Teithiau i Efrog Newydd, Gwlad Pwyl, Cernyw, Lerpwl, Llundain, Yr Eidal





**10** PERSON IFANC WEDI TEITHIO DRAMOR


**5** PERSON IFANC WEDI TEITHIO YN Y DEYRNAS UNEDIG

**17** AELOD STAFF WEDI GAEL CYFLEON TEITHIO

**5** CYDWEITHWYR O WLAD PWYL WEDI YMWELD Â CHYMRU

> “MAE’R DAITH HON I GWLAD PWYL WEDI NEWID FY MYWYD. RWYF WEDI TYFU AC WEDI DOD ALLAN O’R PROFIAD HWN YN DDYN GWELL.”











# PROSIECT I BOBL IFANC SYDD WEDI PROFI GOFAL

**121**

Nifer o bobl ifanc a gefnogir ar unhryw adeg

**93 CYFEIRIAD (18–25 OED)**


**28 CYFEIRIAD (16–18 OED)**

- 10% yn geiswyr lloches
- 3% mewn addysg uwch
- 3% yn y carchar
- 3% Person ifanc mewn lleoliad maeth
- 6% yn ddigartref



Rydym wedi cydweithio gyda Chyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru i ddatblygu 4 fflat hunangynhwysol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal gyda chefnogaeth ymarferol ar y safle.

**ARWEINYDD TIM PROFIADOL - AMY THATCHER JONES**



**"GWNAETH CYFARFOD FY CYNGHORYDD PERSONOL GYNHESU FY NGHALON – MAE'N WAHANOL PAN FO RHYWUN WIR YN DEALL."**

# GISDA LHDTC+

| 227 | 65 | 130+ | 24 |
|---|---|---|---|
| o bobl wedi derbyn hyfforddiant LHDTC+ | o bobl ifanc yn mynychu ein clybiau | o oriau yn ein clybiau gan wirfoddolwyr | Person wedi derbyn cefnogaeth arbenigol 1-1 |

> “MAE MOR NEIS CAEL BOD YN RHYWLE LLE DWI’N GALLU BOD YN FI FY HUN.”

- Person ifanc sydd yn cael cefnogaeth trwy Prosiect LHDTC+



GISDA
Llesiant / Wellbeing



# 224

nifer o bobl ifanc sydd wedi derbyn cefnogaeth iechyd meddwl a llesiant

“MAE DOD I’R HWB FEDRA I YN TYNNU’R PWYSAU SYDD YN FY MYWYD. DWI’N CAEL AMSER I YMLACIO A MEDDWL AM BETHAU POSITIF A SGILIAU I DDELIO EFO BYWYD”



# 163

o gyfeiriadau wedi derbyn

# 81%

O bobl ifanc wedi gwella eu hiechyd meddwl lles

# 72%

O bobl ifanc yn teimlo’n llai unig

FEDRA’I
Law yn llaw at iechyd meddwl



# GISDACTIF

**200**

o bobl ifanc wedi mynychu sesiynau actif

**53**

nifer o sesiynau actif

## HER40KM: O Bwllheli i Gaernarfon

Bu staff a phobl ifanc GISDA yn cerdded 40 cilomedr o Bwllheli i Gaernarfon i nodi 40 mlynedd o wasanaeth GISDA, gan godi dros £2,000. Roedd y daith yn arddangos cryfder, cydweithio ac ymroddiad i gefnogi pobl ifanc sy'n wynebu heriau, gan godi arian ac ymwybyddiaeth ar hyd y ffordd.





**"Dwi'n cael y chance i roi targedau call mewn lle, mynd i'r gym a gweithio ar fy hyn" - Person ifanc sy'n cael cefnogaeth 1-1 gan GISDACTIF**


**"Wedi gwneud ffrindiau trwy GISDACTIF, hawdd siarad tra mynd am dro neu yn y gym" - Person Ifanc sy'n mynychu sesiynau Gisdactif**











# CREADIGOL

**282**

o sesiynau / gweithgareddau

"WRTH FY MODD. EDRYCH YMLAEN POB WYTHNOS I'R GWEITHGAREDDAU. DWI'N RILI MWYNHAU NHW"

## Aber i Aber – Cerdd Cymunedol Cymru



Prosiect cerddoriaeth 10 wythnos mewn partneriaeth â Cherddoriaeth Gymunedol Cymru. Fe wnaeth pobl ifanc ddatblygu sgiliau cerddorol, cyfansoddi cân wreiddiol am Gaernarfon, a'i recordio'n broffesiynol mewn stiwdio.

## Olion ( Frân Wen x GISDA )

Prosiect theatr uchelgeisiol gyda Fran Wen, gyda saith o bobl ifanc GISDA yn perfformio yn "Olion" ar ôl dwy flynedd o waith datblygu trwy brosiect Nabod.





## Celf Mewn Natur – Oriel Ysbyty Gwynedd



Prosiect mewn partneriaeth ag FEDRAI I, lle bu pobl ifanc yn defnyddio celf fel allfa therapiwtig i archwilio iechyd meddwl, gyda natur yn ganolog. Daeth y prosiect i ben gydag arddangosfa yn Oriel Ysbyty Gwynedd.

GISDA Llais / Voice

**48** sesiwn bwrdd pobl ifanc

**118** pobl ifanc wedi mynychu

## YMGYRCH TRAFNIDIAETH

Mae ein Bwrdd Pobl Ifanc wedi cyfrannu at ymgyrch trafnidiaeth cyhoeddus sydd wedi arwain at docynnau bws £1 i bobl ifanc dan 21 yng Nghymru!





## SENEDD IEUENCTID CYMRU

Lewis yn cael ei ethol i gynrychioli GISDA yn Senedd Ieuenctid Cymru am y tymor 2025-2028.

SEFYDLIAD PARTNER — PARTNER ORGANISATION

# HYBIAU GISDA

## PARTNERTIAETHAU

Rydym wedi datblygu rhwydwaith gref o bartneriaid yn yr hybiau er mwyn gallu cynnig cymorth ymarferol i bobl ifanc  i'w helpu i oresgyn rhwystrau a chyflawni eu potensial

**Mae GISDA wedi rhannu £69,305 mewn grantiau ariannol i bobl ifanc**




Glasspool Charity Trust
TESCO
CRONFA CYMORTH DEWISOL
fuel bank FOUNDATION
CITIZENCARD
Good Things Foundation
CENTRE POINT
CRONFA FFYNAINT GYFFREDIN GOGLEDD CYMRU

Cymraeg

Rydym yn darparu cefnogaeth dwyieithog i bobl ifanc ar draws Gwynedd, gan ymestyn dros 979 milltir sgwâr ar led y sir.



GWOBRAU CHWARAEON GWYNEDD 2024
CYFLOGWR ACTIF Y FLWYDDYN

Byw'n Iach

# GWOBRAU




GWOBRAU IECHYD MEDDWL A LLESIANT CYMRU 2024
RHESTR FER AM SEFYDLIAD ELUSENNOL YSBRYDOLEDIG

# POBL IFANC



GWOBRAU GWIRFODDOLI GWYNEDD 2025
SION - RHESTR FER GWRIFODDOLWR Y FLWYDDYN



GWOBRAU GWIRFODDOLI GWYNEDD 2024 JEM - GWRIFODDOLWR Y FLWYDDYN



GWOBRAU ELUSENNAU CYMRU 2024
REECE – RHESTR FER GWIRFODDOLWR IFANC Y FLWYDDYN



GWOBRAU CENTREPOINT 2024
ANYA – GWOBR PARTNER CENTREPOINT



GWOBRAU ARFER DA TPAS 2024
ANYA – TENANT IFANC Y FLWYDDYN

# YMWELIADAU

## SIAN GWENLLIAN AS




Ymwelodd Sian Gwenllian AS â GISDA i gwrdd â phobl ifanc a gweld y Bwrdd Pobl Ifanc i son am yr Ymgyrch Trafnidiaeth. Cafodd gyfle i glywed am eu profiadau a'r negeseuon pwysig sydd wedi'u codi gan y bobl ifanc ynglŷn â heriau trafnidiaeth leol.

## DEREK WALKER - COMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL



Croesawodd GISDA Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, i Gaernarfon. Cafodd gyfle i glywed am ein gwaith a'r heriau rydym yn eu hwynebu. Rhannwyd ein strategaeth 'Gall GISDA', sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r cynllun 'Cymru Can'. Roedd y Comisiynydd yn gwerthfawrogi'r dull ac yn awyddus i ddychwelyd i ddilyn ein datblygiadau.

## EFA GRUFFYDD COMISIYNYDD Y GYMRAEG

Croesawodd GISDA Efa Gruffudd Jones, Comisiynydd y Gymraeg, i'n safle yng Nghaernarfon. Trafodwyd ein gwaith gyda phobl ifanc a'r pwyslais ar ddarparu gwasanaethau trwy'r Gymraeg. Roedd yn gyfle gwerthfawr i rannu ein cynnig a dysgu am flaenoriaethau'r Comisiynydd ar gyfer y blynyddoedd i ddod.



# YN GISDA, RYDYM YN CERDDED OCHR YN OCHR Â'N POBL IFANC




GISDA

# CYNRYCHIOLI GISDA LEDLED CYMRU A THU HWNT

## CYNHADLEDD GWAITH IEUENCTID

Gwaith Ieuenctid Cymru | Youth Work Wales




Bu GISDA yn bresennol yng Nghynhadledd Gwaith Ieuenctid yng Nghaerdydd – diwrnod ysbrydoledig yn tynnu sylw at brosiect NABOD, gwaith drwy'r Gymraeg a theithiau addysgol tramor. Cyfle i ddysgu ac adeiladu partneriaethau i gefnogi pobl ifanc.

## CYNHADLEDD SHELTER CYMRU

Shelter Cymru



Mynychodd GISDA Gynhadledd Pobl a Chartrefi gan Shelter Cymru, yn canolbwyntio ar yr argyfwng tai yng Nghymru. Trafodwyd pwysigrwydd tai cymdeithasol, digartrefedd, a'r angen am gefnogaeth barhaus. Cafwyd cyfle i rannu profiadau pobl ifanc yng Ngwynedd a chlywed am ymrwymiad i wneud llety yn flaenoriaeth genedlaethol.

## FEANTSA




Mae GISDA yn aelod o fudiad aelodaeth FEANTSA sef corff ambarel dros fudiadau digartrefedd ar draws Ewrop. Cynhaliwyd y gynhadledd eleni yn Athens dros ddeu ddydd ym mis Mai. Roedd yn gyfle gwych i ddysgu, adlewyrchu a chwrdd gyda mudiadau gwych ar hyd a lle Ewrop. Roedd hi'n amlwg nad oedd yr un Wlad heb ei effeithio gyda'r her o ymateb i ddigartrefedd.

## ALI FORNEY

The Ali Forney Center



Aeth Kaya, Rheolwr Prosiect TAPI, i Parma gyda Phrosiect TAITH i fynychu fforwm LHDTC+ dan arweiniad Canolfan Ali Forney. Daeth 25 o asiantaethau o 16 o wledydd at ei gilydd i rannu syniadau a dysgu am wasanaethau i bobl ifanc LHDTC+. Roedd yn gyfle gwerthfawr i rannu gwaith GISDA, dysgu gan eraill, a chasglu syniadau i ddatblygu ein cefnogaeth yn lleol.

# FY STORI, FY NHAITH - DIOLCH I GISDA

"Arhosais gyda GISDA yn 2015, yn ystod un o'r cyfnodau anoddaf yn fy mywyd. Fel person ifanc heb unman arall i fynd, rhoddodd GISDA fwy na tho uwch fy mhen i mi — fe roedden nhw'n rhoi diogelwch, cefnogaeth, ac un cyfle go iawn i ailadeiladu fy mywyd.

Yr hyn a sefodd allan fwyaf oedd caredigrwydd ac amynedd y staff. Doedden nhw ddim ond yn gweld "homeless teenager" — roedden nhw'n gweld potensial, hyd yn oed pan nad oeddwn i'n gallu ei weld ynof fy hun. Diolch i'w cefnogaeth, enillais sefydlogrwydd, hyder, a chyfeiriad.

Ar ôl symud ymlaen o brif dŷ GISDA, symudais i fflat cefnogedig yn Nhre Gof, lle cefais fwy o annibyniaeth, ond roeddwn i'n gwybod bod y staff dal yno i'm cefnogi pan oeddwn i'n eu hangen. Roedd y cydbwysedd hwnnw rhwng rhyddid a chefnogaeth yn help mawr i mi dyfu ymhellach.

Nawr, 10 mlynedd yn ddiweddarach, rwy'n falch o ddweud fy mod yn byw'n annibynnol yn fy nghartref fy hun. Mae gen i swydd llawn amser ac rwyf hyd yn oed wedi pasio fy mhrawf gyrru ac ennill fy nhrwydded. Mae wedi bod yn daith, ond ni fyddwn i lle rwy'n heddiw heb gefnogaeth GISDA.

Hoffwn ddiolch yn arbennig i Andy (pennaeth y tŷ GISDA), Elin (fy ngweithiwr cefnogol), Lynne (a oedd yn gefn mawr i mi tra roeddwn i yno), y diweddar Anwen, a Sandra, a oedd yn mynd â ni ar ein tasgau glanhau wythnosol — ac i bawb arall yn GISDA a chwaraeodd ran yn fy helpu trwy'r bennod honno yn fy mywyd. Fe wnaethoch chi i gyd wneud gwahaniaeth.

Byddaf wastad yn ddiolchgar am y rhan a chwaraeodd GISDA yn fy helpu i dyfu'n berson rwyf heddiw. Maen nhw wir yn newid bywydau, ac rwy'n falch o ddweud fy mod i'n un ohonyn nhw.

Diolch o galon i chi, GISDA"



# ARIANWYR GISDA - DIOLCH!

CYNGOR GWYNEDD

Grant Cymorth Tai
Housing Support Grant

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

CRONFA FFYNAINT GYFFREDIN
GOGLEDD CYMRU

Taith

GOGLEDD CYMRU
ACTIF
NORTH WALES

1884
PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Funded by
UK Government
Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

MENTER MÔN

BBC
Plant Mewn Angen
Children in Need
© BBC 2007 Rhif Elusen/Reg charity no. 802052

CYNGOR DINAS
BANGOR
CITY COUNCIL

NHS WALES
GIG CYMRU
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

BWRLWM ARFOR

COMIC RELIEF

WCVA
CGGC

THE MOONDANCE FOUNDATION

GISDA

CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

## CYSYLLTWCH Â NI


01286 671153

gisda@gisda.co.uk

www.gisda.org


## DILYNWCH NI

@gisdacyf

@gisdacyf

@gisdacyf


RHIF ELUSEN GOFRESTREDIG: 1068325 | CWMNI CYFYNGEDIG DAN WARANT: 2484575


40
GISDA